COFNODION CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Gorffennaf 6ed, 2016 am saith o'r gloch

PRESENNOL

John Gwilym Jones (Cadeirydd), John E. Griffiths, Gwilym Hughes, Robert M. Jones, Dylan Llwyd, Erfyl W. Roberts, William B. Williams

YMDDIHEURIADAU

Alun Jones (Is-gadeirydd), Thelma Cordingley, Wyn Griffiths, Catherine Ll. Morris, O. Hefin Roberts, R. Phillip Roberts

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU CYFRIFON 2015 – 2016**

Ymddiheurodd y Clerc am yr oedi cyn galw'r cyfarfod i gadarnhau'r cyfrifon – ni allai John D. Roberts, Archwiliwr Mewnol, gytuno â'r ffigurau a châi drafferth falanshio. O ganlyniad, ailedrychwyd arnynt a chyda chymorth Cyng. Thelma Cordingley – llwyddwyd eu cysoni. Cynigiwyd ac eiliwyd fod y cyfrifon yn gywir ar ôl eu trafod yn fanwl. Arwyddodd y Cadeirydd a'r Clerc y ffurflen i'w hanfon at BDO erbyn dydd Llun nesaf, Gorffennaf 11eg.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C16/0180/39/LL	Adeiladu estyniad unllawr cyntaf uwchben y modurdy, ynghyd ag estyniad unllawr â theras ar ran o'r to – 82 Cae Du, Aber-soch **– Cefnogir**
C16/0604/39/TC	**Gwybodaeth Cynghorwyr Unigol –** Cais Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon i ddefnyddio Bryn Tirion fel tŷ annedd – Bryn Tirion, Lôn Golff, Aber-soch
C16/0619/39/LL	Estyniad unllawr cefn ac ymestyn ardal parcio i flaen yr eiddo – Delfryn, 13 Cae Du, Aber-soch – **Cefnogir**
C16/0622/39/LL	Dymchwel tŷ gwydr ac adeiladu estyniad i allandy presennol i ffurfio ystafell haul – Pen y Bennar, Lôn Traeth, Aber-soch **– Cefnogir**
C16/0628/39/LL	Estyniad unllawr cefn, ymestyn modurdai presennol a chyfnewid to fflat ag un brig – 11 Stád Sant Tudwal, Mynytho **– Cefnogir**

C16/0629/39/LL	Diddymu Amod 3 a 4 o Ganiatâd Cynllunio C13/0594/39/LL er mwyn defnyddio uned wyliau bresennol fel tŷ annedd – Tafliad Carreg, Llysfor, Aber-soch **– Gohiriwyd tan gyfarfod nesaf y Cyngor er mwyn cael mwy o fanylion**
C16/0630/39/LL	Dyluniad Diwygiedig i gais C15/0296/39/LL er mwyn gosod dwy ffenestr ychwanegol a newid lletur to yng nghefn yr eiddo – Argraig, Cilan **– Cefnogir**
C16/0638/39/LL	Dyluniad Diwygiedig i estyniad a ganiatawyd gan Ganiatâd Rhif C14/0215/39/LL – Cilfan, Lôn Gwydryn, Aber-soch **– Gohiriwyd tan gyfarfod nesaf y Cyngor er mwyn cael copi o'r dyluniadau a ganiatawyd, gan mai rhai bwriadedig a atodwyd i'r cais**

4. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nos Lun, Gorffennaf 25ain, 2016 am saith o'r gloch.

Daeth y cyfarfod i ben am chwarter i wyth o'r gloch.